# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS LUN, 10.01.11. AM 7.15 YR HWYR YNG NGHANOLFAN CAPEL CAEATHRO, CAETHRO**

**Presennol –** Cynghorwyr Gwilym O Williams (Cadeirydd)
Edgar Owen
Cadi Jones
Eurig Wyn
Pat Parry
Shoned Griffith (Clerc)

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2 Ymddiheuriadau –** Y Cyng B Jones, Cyng C James, Cyng L Brown, Cyng T Parry

**3 Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4 Gerddi Bach**

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, bu i'r Clerc ofyn i Cyngor Gwynedd ddod i'n cyfarfod 23 o Chwefror i
drafod Gerddi Bach. Nodwyd gan y Cyng E Wyn ei fod wedi siarad gyda Idwal Williams, Adran Cynllunio a'i
fod wedi awgrymu i aelodau'r Cyngor Cymuned fynd i Swyddfa Cyngor Gwynedd i gyfarfod a trafod y mater.
Penderfynwyd y byddai y Cyng E Wyn, Cyng P Parry, Cyng E Owen a'r Cyng G O Williams yn mynd ac os na
allai y Cyng GOW fynd yna byddai'r Cyng C Jones yn mynd yn ei le. Trefnwyd y cyfarfod ar gyfer dydd Iau,
27ain o Ionawr am 9.30 y bore.

**5 Derbyn Cofnodion cyfarfod 24.11.10**

Y Cyng CJ yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng EO yn eilio.

**Derbyn Cofnodion cyfarfod 21.12.10**

Y Cyng EO yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng GOW yn eilio.

**6 Materion yn codi o'r Cofnodion cyfarfod 24.11.10**

Materion Caeathro – dim

Materion Waunfawr - coed wrth y gofeb – Cofnod gan Cyngor Gwynedd ers 1991 mai'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y darn tir, a bod 'tree reservation order' ar y coed.
Loriau Mawr yn mynd i Ty'n Cae Newydd – GOW wedi holi adran Cynllunio doedd dim yn nodi ar y cais fod y ffordd yn anaddas ar gyfer loriau mawr, maent yn cymryd hyn i ystyriaeth o hyn ymlaen.

**Materion yn codi o'r Cofnodion cyfarfod 21.12.10**

Dal nifer o alwadau ffon yn dilyn yr adroddiadau yn yr Herald cyn y dolig. Cyng GOW wedi rhoi adroddiad yn yr Herald.

## 7 Adroddiadau

**a. Lloches Bws**
Lloches ger yr hen bost dal angen ei beintio, heb ei wneud eto oherwydd y tywydd.

**b. Pwyllgor y Fynwent ac Eiddo**
Cyng GOW wedi bod drwy llyfrau'r Fynwent ac wedi ymweld a'r Fynwent, mae lle yn brin yno ar sail ffigyrau y blynyddoedd diwethaf mae oddeutu 20 mlynedd cyn bydd rhaid cysidro ymhellach. Nodwyd fod lle i res o gasget ac oddeutu 10 lle arch ar ol yn y rhan presennol o'r fynwent, cyn dechrau'r ¼ olaf.

**c. Llwybrau Cyhoeddus**
Rhwydwaith Gwyrfai i gyfarfod diwedd y mis, 24ain o Ionawr.

## 8 Materion Cynllunio

### a. Ceisiadau newydd

| Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|
| 15/12/10 | Codi estyniad unllawr ochor | Hafod y Coed Waunfawr | C10A/0592/26/LL | Dim gwrthwynebiad |
| 04/01/11 | Addasu'rEglwys wag i 2 uned breswyl ynghyd a chreu mynedfa newydd | St John's Church Waunfawr | C10A/0609/26/LL | Dim gwrthwynebiad |

### b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd

| Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|
| 26/10/10 | Addasu ac ehangu'r mannau parcio presennol | Bro Waun, Waunfawr | C10A/0546/26/LL | Wedi derbyn caniatad |
| 29/10/10 | Creu pwll bywyd gwyllt | Coed y Bedw Waunfawr | C10A/0552/26/LL | Wedi derbyn caniatad |
| 04/11/10 | Estyniad a newidiadau | Nant y Mynydd | C10A/0560/26/LL | Wedi derbyn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Waunfawr | | caniatad |

**9 Gohebiaeth i'w drafod**

E-bost Unllais – Hyfforddiant i Cynghorwyr
E-bost Unllais – Breuddwydion Bro – Beacon
Cyngor Gwynedd – Baw Ci
Unllais Cymru – Cyfarfod Ardal Arfon/Dwyfor
Cyngor Gwynedd – Bin ysbwriel
Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Bws, Waunfawr
Cyngor Gwynedd – Llwybr cyhoeddus rhif 15
Cyngor Gwynedd – Praesept 2011/12 – penderfynwyd gadael y swm fel y bu yn y blynyddoedd diwethaf

**10. Materion Ariannol**

**10.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Rhagfyr | £260.00 |
| G R Services | £50.00 |
| Mr R Jones | £20.00 |
| Ymchwil Cancr Cymru | £20.00 |

**10.2 Arian a dderbyniwyd**

| | |
|---|---|
| Ffi Claddu (x2 @ £400.00 yr un) | £800.00 |

**10.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| H Jones | £36.00 |
| B Jones | £36.00 |
| B Owen | £36.00 |
| Cyflog Clerc Ionawr | £260.00 |
| UHY Hacker Young | £276.13 |
| Cyflog Clerc Chwefror | £260.00 |

**10.4 Mabwysiadu Asesiad Risg a Rheolau Mewnol y Cyngor Cymuned**
Aethwyd drwy'r Asesiad Risg a'r Rheolau Mewnol ar gyfer y Cyngor Cymuned a chymeradwywyd yn gywir gan aelodau'r Cyngor Cymuned am y flwyddyn i ddod.

**11. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 23ain o Chwefror, 2011 am **7.15** yr hwyr yng Nghanolfan Waunfawr. Ymddiheuriadau ymlaen llaw gan y Clerc trefnwyd fod y Cyng P Parry yn cymryd y cofnodion.

**12 Materion Aelodau.**

**Y Cyng CJones** –Biniau halen greiannu – oes posibl cael mwy ohonynt – Nodwyd gan y Cyng GOW na fyddai hyn yn bosibl.

**Y Cyng EW** - Dim

**Y Cyng EO** – Ffordd rhwng Caernarfon a Chaeathro – wedi llenwi rhai tyllau ond heb orffen, Cyng GOW i gysylltu a Chyngor Gwynedd

**Y Cyng GOW** – Trefnu ymweliad ar y cyd a Chyngor Gwynedd i ymweld a rhai Llwybrau yn y pentref.